# CYNGOR

## (*CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT*)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mercher, 2 Chwefror 2022**

| | |
|---|---|
| **Y Maer:** | **Councillor J.Warman** |
| **Y Dirprwy Faer** | **Councillor J.D.Morgan** |
| **Cynghorwyr:** | S.Bamsey, D.Cawsey, C.Clement-Williams, M.Crowley, A.P.H.Davies, N.J.E.Davies, O.S.Davies, R.Davies, C.Edwards, J.Evans, S.E.Freeguard, W.F.Griffiths, J.Hale, S.Harris, M.Harvey, N.T.Hunt, S.K.Hunt, J.Hurley, C.James, H.N.James, D.Jones, H.Jones, J.Jones, L.Jones, R.G.Jones, S.Jones, D.Keogh, S.A.Knoyle, E.V.Latham, A.Llewelyn, A.R.Lockyer, A.McGrath, J.Miller, S.Miller, R.Mizen, S.Paddison, S.M.Penry, D.M.Peters, R.Phillips, M.Protheroe, S.Pursey, S.Rahaman, P.A.Rees, S.H.Reynolds, A.J.Richards, P.D.Richards, M.Spooner, A.J.Taylor, R.L.Taylor, D.Whitelock, A.Wingrave, R.W.Wood a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | R.Crowhurst, S.Curran, C.Griffiths, A.Jarrett, K.Jones, N.Pearce, M.Shaw, A.Thomas, K.Windsor-Brown a/ac J.Woodman-Ralph |
| **Cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Cyfieithu:** | Present |

---

1. **CROESO A GALW'R ENWAU**

Croesawodd y Maer bawb a oedd yn bresennol a galwyd yr enwau.

2. **CYHOEDDIADAU'R MAER**

Gwahoddodd y Maer y  cyngor i ymuno ag ef i longyfarch P.C. Anne Overton, Heddlu De Cymru, a oedd wedi derbyn Medal fawreddog Heddlu'r Frenhines am wasanaeth nodedig yn Rhestr Anrhydeddau'r

Flwyddyn Newydd. Bu'n swyddog troseddau casineb yn ardal Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot ers 2018.

Llongyfarchodd y Maer Dr Edward Morgan Roberts (Dirprwy Raglaw) ymhellach, gan iddo gael ei wneud yn Aelod o Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig am wasanaethau i feddygaeth ac i'r gymuned yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4. **COFNODION CYFARFOD BLAENOROL Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 22 RHAGFYR 2021**

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Rhagfyr 2021 er cywirdeb.

5. **CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG 2022 - 2032**

Cyflwynodd y Cynghorydd P A Rees, Aelod y Cabinet dros Addysg, Sgiliau a Diwylliant yr adroddiad a gafodd ei gymeradwyo i'r cyngor gan Fwrdd Addysg, Sgiliau a Diwylliant y Cabinet a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2022.

Nododd yr Aelodau mai nod Llywodraeth Cymru oedd cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru i filiwn erbyn 2050. Roedd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) drafft Castell-nedd Port Talbot yn manylu ar y gwaith o gefnogi a datblygu addysg Gymraeg ymhellach mewn ysgolion ac yn y cymunedau ehangach. Datblygwyd y cynllun drafft drwy ymgynghori cynhwysfawr ag ystod eang o randdeiliaid a oedd yn rhan hanfodol o'r gwaith o baratoi'r cynllun. Diolchodd Aelod y Cabinet dros Addysg, Sgiliau a Diwylliant i'r swyddogion a phawb a fu'n ymwneud â datblygu'r cynllun.

Croesawodd yr Aelodau'r adroddiad gan nodi'u cefnogaeth am Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ond mynegwyd pryder ynghylch y cyhoeddiad diweddar y byddai Comisiynydd y Gymraeg yn cynnal ymchwiliad gorfodi safonau i ad-drefniant Ysgolion Cwm Tawe ac a ddylid dileu'r adran honno yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg nes bod canlyniadau'r ymchwiliad yn hysbys.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes fod y Cynllun wedi'i ddatblygu gan bartneriaid strategol allweddol a bod cydberchnogaeth y cynllun strategol allweddol yn bwysig iawn. Roedd y ddogfen wedi'i chymeradwyo gan Fforwm Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Bwrdd Addysg, Sgiliau a Diwylliant y Cabinet yn dilyn ystyriaeth a chefnogaeth gan y Pwyllgor Craffu. Esboniwyd hefyd, pe bai'r cynllun yn cael ei gyflwyno fel y'i cyhoeddwyd yn yr agenda, heb unrhyw ddiwygiadau, y byddai cyfle o hyd i gael ei ddiwygio, gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot a Gweinidogion Cymru, yn dilyn canlyniad yr ymchwiliad.

Cafwyd eglurhad hefyd fod yr ymchwiliad gorfodi safonau i ad-drefniant Ysgol Cwm Tawe o ganlyniad i gŵyn a dderbyniwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg i'r broses.

Eglurodd swyddogion fod yr ymholiadau a godwyd gan Aelodau wedi'u trafod yn Fforwm Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, ac i ddechrau roedd y drafft cyntaf yn dilyn canllawiau cyffredinol gan Lywodraeth Cymru i gynnwys atodiad yn amlinellu'r ffactorau lliniarol a ystyriwyd mewn perthynas â Chwm Tawe. Cytunwyd wedyn, fodd bynnag, i ddileu hyn gan y byddai ei gynnwys yn tynnu oddi ar y pwysigrwydd a'r camau cadarnhaol i'w cymryd dros y 10 mlynedd nesaf gan Gastell-nedd Port Talbot fel sir, a byddai'n canolbwyntio ar un ardal benodol. Yn dilyn trafodaeth yn y Fforwm, a'i Is-Fforymau, cytunwyd i ddiwygio Atodiad A i'r adroddiad fel ei fod yn ymwneud â phob maes o fewn yr awdurdod, gan gynnwys ychwanegu targedau i ddiogelu holl feysydd sensitifrwydd ieithyddol, a ffactorau lliniaru arfaethedig i'w cyflwyno ar draws yr awdurdod cyfan.

Yn dilyn y drafodaeth, derbyniwyd diwygiad fel y nodir isod a'i roi gerbron y Cyngor fel a ganlyn:

*"Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r ymatebion i'r ymgynghoriad, argymhellir bod aelodau'n caniatáu cyflwyno Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg drafft i Weinidogion Cymru yn amodol ar ddileu'r adran sy'n ymwneud â Chwm Tawe a mesurau lliniaru Cwm Tawe wrth aros am ganlyniad ymchwiliad Comisiynydd y Gymraeg a fersiwn wedi'i diweddaru a ddarperir ar yr adeg honno."*

Methodd y diwygiad uchod, ac o ganlyniad, ystyriwyd y prif argymhelliad a gafwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r ymatebion i'r ymgynghoriad, y dylid cymeradwyo cyflwyno

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg drafft 2022-2032 i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.

6. **GWNEUD PENDERFYNIADAU MAWRTH 2022 - MAI 2022 2022 - 2032**

**PENDERFYNWYD:** 1) Ar gyfer unrhyw faterion y mae angen i'r Cabinet neu Fyrddau'r Cabinet neu unrhyw Bwyllgor neu Is-bwyllgor arall y cyngor benderfynu arnynt fel arfer, ac sydd ym marn y Prif Weithredwr, neu Gyfarwyddwr Corfforaethol neu Bennaeth Gwasanaeth yn ei gwneud yn ofynnol i benderfyniad gael ei wneud yn ystod y cyfnod rhwng 5 Mai a 31 Mai 2022, bydd gan y Swyddog(ion) hwnnw(hynny), mewn perthynas â materion o fewn ei(eu) swyddogaethau gwasanaeth, bŵer dirprwyedig i wneud penderfyniad ac awdurdodi unrhyw gamau gweithredu ar y materion dan sylw, yn amodol ar y canlynol:

(a) mae'n rhaid i unrhyw benderfyniadau a wneir gydymffurfio â fformat adrodd arferol, gan gynnwys datganiad cydymffurfio a rheswm dros benderfyniad, heblaw am y cânt eu rhoi ar waith ar unwaith heb unrhyw ofyniad galw i mewn;

b) adroddir yn ôl wrth Aelodau am bob penderfyniad

c) ni fydd y ddirprwyaeth hon yn cynnwys unrhyw benderfyniad ar geisiadau cynllunio a benderfynir fel arfer gan y Pwyllgor Cynllunio, oni bai fod y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd yn ystyried ei fod yn fater brys yng nghyd-destun amserlenni statudol; ac ni fydd ychwaith yn cynnwys penderfyniadau ar unrhyw faterion cynllunio yr ystyrir eu bod yn "ddadleuol" ym marn y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd. Y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd fydd yn penderfynu ar unrhyw geisiadau cynllunio yr ymdrinnir â hwy o dan y

ddirprwyaeth hon

ch) wrth arfer y pwerau dirprwyedig uchod, bydd yn ofynnol i Swyddogion ymgynghori â thri Aelod fel a ganlyn:

i) Rhwng 6 Mai a 17 Mai – y Maer neu'r Dirprwy Faer presennol a dau Aelod arall o wahanol Grwpiau Gwleidyddol (gan gynnwys un o unrhyw Grŵp Mwyafrif);

ii) Rhwng 17 Mai a 31 Mai - yr Arweinydd neu'r Dirprwy Arweinydd sydd newydd ei ethol (neu yn eu habsenoldeb y Maer neu'r Dirprwy Faer sydd newydd ei ethol) a dau Aelod arall o wahanol Grwpiau Gwleidyddol (gan gynnwys un o unrhyw Grŵp Mwyafrif). Ar yr amod, yn y ddau achos, fod y grwpiau hyn wedi'u sefydlu.

2) Rhoddir awdurdod i'r Maer neu'r Dirprwy Faer fod yn bresennol wrth i dendrau gael eu hagor yn ystod y cyfnod a nodir yn argymhelliad 1(a) uchod a'r Arweinydd neu'r Dirprwy Arweinydd (neu yn eu habsenoldeb, y Maer neu'r Dirprwy Faer) yn ystod y cyfnod a nodir yn (1(ch)(ii) uchod.

## 7. NEWID I GYMESUREDD GWLEIDYDDOL AC AELODAETH PWYLLGORAU

**PENDERFYNWYD:** 1.Bydd y Cynghorydd Mark Protheroe yn cael ei ddiswyddo fel aelod o'r Pwyllgor Craffu Addysg, Sgiliau a Diwylliant, y Pwyllgor Cofrestru a Thrwyddedu a'r Pwyllgor Deddfau Trwyddedu a Gamblo.

2.Bydd y Cynghorydd Dennis Keogh yn cael ei ddiswyddo fel aelod o'r Is-bwyllgor Craffu Hamdden a Diwylliant.

3. Bydd y Cynghorydd A McGrath yn cael ei ddiswyddo fel aelod o Bwyllgor Craffu'r Strydlun a Pheirianneg.

4. Penodi'r Cynghorydd M Protheroe yn aelod o Bwyllgor Craffu'r Strydlun a Pheirianneg.

5. Penodi'r y Cynghorydd A McGrath yn aelod o'r Pwyllgor Craffu Addysg, Sgiliau a Diwylliant, yr Is-bwyllgor Hamdden a Diwylliant, y Pwyllgor Cofrestru a Thrwyddedu a'r Pwyllgor Deddfau Trwyddedu a Gamblo.

8. **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - PENODI AELODAU LLEYG SY'N PLEIDLEISIO**

**PENDERFYNWYD:** Penodi'r unigolion canlynol yn aelodau lleyg sy'n pleidleisio ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

Andrew Bagley,
Helen Griffiths,
Mark Owen.

9. **RHYBUDD O GYNNIG O DAN ADRAN 10 RHAN 4 (RHEOLAU GWEITHDREFNAU) O GYFANSODDIAD Y CYNGOR**

Ni dderbyniwyd unrhyw Rhybudd o Gynnig.

10. **CWESTIYNAU GAN AELODAU, GYDA RHYBUDD, DAN REOL 9.2 RHEOLAU GWEITHDREFNAU'R CYNGOR**

Derbyniwyd y cwestiwn canlynol o dan Reol 9.2 o Reolau Gweithdrefnau'r cyngor.

*"Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Prydain i wrthod gŵyl banc yng Nghymru ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi, a fydd Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn ystyried dilyn esiampl Cyngor Gwynedd a chreu gŵyl banc de facto i staff y cyngor a rhoi amser o’r gwaith yn lle tâl i'r rheini sy'n gwneud gwasanaethau hanfodol? A fydd Cyngor Castell-nedd Port Talbot a'i arweinyddiaeth hefyd yn ystyried dilyn Cyngor Caerffili wrth lobïo llywodraethau Cymru a'r DU i sicrhau bod y pŵer hwn yn cael ei ddatganoli, gan sicrhau cydraddoldeb ar draws yr Ynysoedd hyn?"*

Ymatebodd y Cynghorydd D Jones, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Chydraddoldeb, drwy gadarnhau bod ymrwymiad clir wedi'i wneud yng Nghynllun Corfforaethol y cyngor i gynyddu'r ffocws a roddir ar dreftadaeth a diwylliant ac i sicrhau y gallai cenedlaethau'r dyfodol fwynhau'r Iaith Gymraeg a thraddodiadau Cymreig.

Gofynnwyd i swyddogion roi cyngor manwl ar y cynnig i greu gŵyl banc i staff y cyngor, a fyddai'n cynnwys dysgu gan Gyngor Gwynedd.

Yn ogystal, byddai ceisiadau'n cael eu gwneud yn ysgrifenedig i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gofyn i'r pwerau i bennu gwyliau banc gael eu datganoli i Lywodraeth Cymru.

11. **<u>EITEMAU BRYS</u>**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

**CHAIRPERSON**